## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i’w Trafod yn y Dyfodol – 24 Mai 2001

## Cynigion a gyflwynwyd ar 17 Mai 2001

Pwnc Dadl Fer

**NDM664 Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Gwyddoniaeth yng Nghymru

Dadl Plaid Leiafrifol

**NDM665 William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Mae’r Cynulliad hwn yn gresynu at fethiant clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur i ddiogelu lles a bywoliaeth Cymru wledig.

**NDM666 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001 a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw fater sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais)(Diwygio)(Cymru) 2001, a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001.

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft)(Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw fater sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft)(Corfforaethau Addysg Bellach)(Cymru) 2001

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001 a’r Memorandwm o Gywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2001.

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir)(Diwygio)(Cymru)

2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir)(Diwygio)(Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001.

- Yn cymeradwyo:

Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol)(Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol)(Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001.

- Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio)(Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio)(Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001.

**NDM667 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, yn nodi'r adroddiad oddi wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o'r enw "Arolwg Polisi o Drosglwyddo Stoc Tai " a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2001.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 21 Mai 2001

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

**NDM665**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Yn llinell un, ychwanegu ar ôl 'gresynu at':

'ddirywiad tymor hir cefn gwlad Cymru ac'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod effaith ddinistriol argyfwng Clwy’r Traed a’r Genau ac yn galw ar y weinyddiaeth Lafur/Democratiaid Rhyddfrydol ynghyd â’r Bartneriaeth Wledig i ddatblygu strategaeth ar frys i adfywio’r economi wledig ac ariannu’r mesurau adnewyddu y tu hwnt i floc Barnett.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y weinyddiaeth Lafur/Democratiaid Rhyddfrydol i weithredu Cynllun Ffermwyr Ifanc Newydd fel ffordd o sicrhau hyfywdra tymor hir amaethyddiaeth yng Nghymru.